**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 19 Chwefror 2026**

**A Gynhaliwyd yng Ngorsaf Drenau Amwythig ac ar-lein**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Vernon Everitt | Aelod Anweithredol a Chadeirydd |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Rhian Langham | Aelod Anweithredol |
| Vinay Parmar | Aelod Anweithredol |
| James Price | Prif Weithredwr |
| Marcia Sinfield | Aelod Anweithredol |
| Peter Strachan | Aelod Anweithredol |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Polisi |
| Peter McDonald | Arsylwr (Llywodraeth Cymru) |
| Jeremy Morgan | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfiaeth |
| Ian Lucas | Cyfarwyddwr Anweithredol Cyswllt |
| Lorenzo Visentin | Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (eitemau 5 a 6) |
| Alan McCarthy | Arsylwr Undebau Llafur (eitemau 4 a 5) |
| Dan Tipper | Prif Swyddog Seilwaith (eitem 9) |
| Lee Robinson | Cyfarwyddwyr Gweithredol Trafnidiaeth Ranbarthol (eitemau 2, 3 ac 8) |
| Julia Buckey AS | Aelod Seneddol dros Amwythig (eitem 3) |
| Amanda Spencer | Rheolwr Swyddfa Julia Buckey AS (eitem 3) |
| Tim Pritchard | Rheolwr Rhaglen, Cyngor Swydd Amwythig (eitem 8) |
| Y Cynghorydd Rob Wilson | Deilydd Portffolio Trafnidiaeth a Thwf Economaidd (eitem 8) |

**Rhan A – Eitemau sefydlog**

**1a. Gair o groeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol i orsaf TrC yn Amwythig. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**1b. Hysbysiad ynghylch cworwm**

Gan fod cworwm, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan buddiant**

Dim.

**1d. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2026 yn gofnod cywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i ddiogelwch a chwsmeriaid**

Mynegodd y Bwrdd ddiolch am ddigwyddiad y diwrnod blaenorol yn Ffynnon Taf pan ddaeth y Prif Weinidog, Prif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, uwch wleidyddion eraill, uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a staff TrC at ei gilydd i lansio *Heddiw, Yfory, Gyda'n Gilydd - gweledigaeth ar gyfer rheilffyrdd ledled Cymru a'r Gororau.*

Myfyriodd y Bwrdd hefyd ar brofiad diweddar a oedd yn dangos diwylliant cadarnhaol a chalonogol timau rheng flaen TrC o ran delio â materion gweithredol anodd sy'n effeithio ar gwsmeriaid a manteision bod yn ddarparwr gwasanaethau cyhoeddus. Cytunodd y Bwrdd fod angen rhagor o wybodaeth am straeon cwsmeriaid [**Gweithredu: James Price**].

**2. Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn Swydd Amwythig**

Ymunodd Lee Robinson â'r cyfarfod i rannu gwybodaeth â'r Bwrdd ar faterion sy'n effeithio ar ardal Swydd Amwythig. Cafodd y Bwrdd wybod mai Gorsaf Amwythig yw'r bedwaredd orsaf drenau brysuraf ar rwydwaith TrC, gyda dros 2.3 miliwn o deithwyr yn mynd i mewn ac allan o'r orsaf bob blwyddyn. Mae hefyd yn orsaf bwysig ar gyfer teithiau trên ar reilffyrdd y Gororau, Calon Cymru, a'r Cambrian ac Amwythig-Caer. Nododd y Bwrdd, er bod Gorsaf Amwythig y tu allan i Gymru, mae angen meithrin cysylltiadau trawsffiniol da â holl awdurdodau'r ffin yn Lloegr er mwyn sicrhau cysylltedd da a bod gwasanaethau rheilffyrdd TrC a rhwydweithiau bysiau masnachfraint dechreuol yn cael eu hintegreiddio'n dda fel rhan o'r broses o dyfu economi Cymru.

**3. Sesiwn rhanddeiliaid - Julia Buckley, Aelod Seneddol - rhan 1**

Ymunodd Julia Buckley AS â'r cyfarfod gydag Amanda Spencer (Rheolwr Swyddfa Julia Buckley). Croesawodd Julia Buckley y Bwrdd i Amwythig gan ddisgrifio'r orsaf fel ased dinesig sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ond pwysleisiodd yr angen i fanteisio i'r eithaf ar ei defnydd masnachol. Soniodd am fanteision refeniw posibl cynyddu lefelau gwasanaeth. Cafwyd trafodaeth ar feysydd parcio a chysylltiadau bws gwell o ystyried lleoliad presennol yr orsaf fysiau leol.

Ehangodd y drafodaeth i Gynllun Big Town Plan Amwythig, gyda Julia Buckley yn eiriol dros uwchgynllun cyfun ar gyfer yr orsaf gyda llif prosiectau penodol. Soniodd hefyd am bwysigrwydd datblygu amwynderau masnachol, gan nodi nad oes unrhyw gynnig manwerthu yn yr orsaf ar hyn o bryd.

Rhoddodd Julia Buckley wybodaeth i'r Bwrdd am waith Grŵp Integreiddio Trafnidiaeth Swydd Amwythig. Disgrifiodd dreialon llwyddiannus gwasanaeth bws nos a'r manteision cymunedol cryf sy'n deillio ohonynt, a'r uchelgais i adfer gwasanaethau bws ar y Sul.

Mewn ymateb, roedd y Bwrdd yn cefnogi'r dyheadau hyn gan gydnabod bod yn rhaid i benderfyniadau gael eu fframio o ran manteision i Gymru hefyd, ac yng nghyd-destun Network Rail yn berchen ar seilwaith yr orsaf. Amlygodd trafodaethau gyfleoedd i ddatgloi potensial adeilad yr orsaf, integreiddio gwasanaethau trafnidiaeth yn fwy effeithiol, a chysylltu'r gwaith â chynllunio economaidd rhanbarthol ehangach. Hefyd, trafododd y Bwrdd heriau sy'n ymwneud â mynediad at ysbytai, yn enwedig lle'r oedd gwasanaethau bysiau trawsffiniol yn effeithio ar drigolion Cymru.

Ystyriodd y Bwrdd werth sicrhau prydles hirach ar Orsaf Amwythig gan Network Rail, gan fod y trefniant 10 mlynedd bresennol yn cyfyngu ar allu TrC i ymrwymo i welliannau tymor hir. Roedd Julia Buckley o blaid defnyddio Amwythig fel achos prawf ar gyfer modelau partneriaeth arloesol, gan gynnwys cael cefnogaeth ar draws pleidiau gwleidyddol. Cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at Julia Buckley i amlinellu'r camau nesaf, gan gynnwys y gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau prydles hirach a blaenoriaethau cychwynnol fel y maes parcio [**Gweithredu: James Price**].

*Gadawodd Julia Buckley ac Amanda Spencer y cyfarfod.*

**4. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Hysbyswyd y Bwrdd bod ffocws wedi bod ar ddiogelwch a chyflawni gweithredol yn y cyfnod diwethaf, ochr yn ochr ag ymgyrch i gynyddu bodlonrwydd cwsmeriaid i sicrhau bod gwerthiant tocynnau ac incwm teithwyr mor uchel â phosibl. Nododd y Bwrdd yr amcangyfrif presennol o incwm y rheilffyrdd ar ddiwedd y flwyddyn. Unwaith eto, mae perfformiad y rheilffyrdd gyda'i gilydd wedi bod yn dda ar Linellau Craidd y Cymoedd a Chymru a'r Gororau ar gyfer cyfnod 11 a chyfnod 12 hyd yma.

Yn ddiweddar, roedd tîm TrC wedi ymddangos ym Mhwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar gyfer ei sesiwn graffu flynyddol lle mynegodd aelodau farn gadarnhaol am berfformiad TrC. Myfyriodd y Bwrdd hefyd ar ddigwyddiad lansio lwyddiannus dogfen weledigaeth rheilffyrdd newydd y sefydliad y diwrnod blaenorol, a oedd wedi denu llawer o ymgysylltu gan weinidogion.

Trafododd y Bwrdd ddatblygiadau Great British Railways (GBR), gan nodi ymgysylltiad adeiladol â Network Rail ar ddyheadau TrC ar gyfer rhwydwaith Cymru a'r Gororau mwy effeithiol a dibynadwy ac ar gyfer uned fusnes GBR Cymru sydd wedi'i grymuso.

Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i fynegi achos cryf dros gynyddu nifer y cerbydau o ystyried y cynnydd yn nifer y teithwyr, Cledrau Croesi Caerdydd a gweithredu rhaglen Burns. Gofynnodd y Bwrdd am i'r papur a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Bwrdd Rheilffyrdd gael ei ddosbarthu [**Gweithredu: Jeremy Morgan**].

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am fflyd Class 398 [redacted]

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am ddigwyddiad yn ymwneud â gwasanaeth T51 yng Ngogledd Cymru [redacted]

O ran cyllid, roedd refeniw teithwyr rheilffyrdd yn is na'r disgwyl yn ystod y cyfnod diwethaf, gyda thywydd garw yn debygol o fod wedi bod yn ffactor. Roedd y trafodaethau'n ymdrin â lefelau cyllid ar gyfer y flwyddyn i ddod a threfniadau cyllido amlflwyddyn gyda Llywodraeth Cymru.

[redacted]

**5. Perfformiad Diogelwch**

Ymunodd Lorenzo Visentin â'r cyfarfod gan gyflwyno'r adroddiad ar berfformiad diogelwch. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â nifer y digwyddiadau diweddar a mwy o adroddiadau gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Ystyriodd y Bwrdd y defnydd o gamerâu corff, gan nodi'r angen am drafodaethau gyda chydweithwyr yn yr undeb. Cyflwynwyd dangosfwrdd ymosodiadau newydd, a oedd yn cynnig gwell dealltwriaeth ac yn tynnu sylw at orsafoedd sydd angen mwy o gymorth. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i gryfhau adroddiadau a fu bron â digwydd a chroesawodd yr wybodaeth ddiweddaraf ar ymgysylltu ehangach â'r diwydiant, gan gynnwys dull gweithredu gan Transport for London

i gefnogi meincnodi rhwng y ddau sefydliad yn y dyfodol. Nodwyd hefyd bod Prifysgol Caergrawnt a’r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd wedi cysylltu â TrC i ymuno ag astudiaeth gymharol o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n targedu effeithlonrwydd amrywiaeth o ymyriadau i leihau digwyddiadau. Nododd y Bwrdd gyflwyniad yn dangos sut roedd telemateg bysiau yn cael ei defnyddio a sut gallai data manwl gefnogi gwell perfformiad.

**6. Parodrwydd i dderbyn risg**

Pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd cysoni’r parodrwydd i dderbyn risg ag amcanion strategol a defnyddio iaith glir a diamwys. Myfyriodd y Bwrdd ar yr angen am gysondeb mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gwerth amrywiaeth wybyddol, a’r gwahaniaeth rhwng cydymffurfio a mathau eraill o risg. Pwysleisiodd yr aelodau hefyd yr angen i ystyried effaith a manteision cadarnhaol wrth asesu risg a chydnabuwyd bod yn rhaid i’r sefydliad fod yn barod i gymryd risgiau ystyriol i wella’r ddarpariaeth. Hefyd, trafododd y Bwrdd agweddau diwylliannol ar barodrwydd cronnus i dderbyn risg ar draws y sefydliad. Cytunwyd y dylai’r drafodaeth ddilynol gynnwys enghreifftiau ymarferol i helpu i bennu’r parodrwydd i dderbyn risg.

*Gadawodd Lorenzo Visentin y cyfarfod.*

**7. Llywodraethu**

Nododd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Llywio; y Bwrdd Gweithredol (sy’n cynnwys bwrdd Rail Ltd) a Pullman; a’r is-bwyllgorau Iechyd a Diogelwch, Taliadau a Phrofiad Cwsmeriaid a Thwf. Roedd materion penodol yn cynnwys cyllid a pherfformiad ansawdd, Llinellau Craidd y Cymoedd, cynaliadwyedd, Project Uno, a’r angen am fwy o eglurder ynghylch uchelgeisiau deallusrwydd artiffisial y sefydliad. Roedd bwriad cyflwyno papur yn canolbwyntio ar gwsmeriaid yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill neu ym mis Mai, a byddai Bwrdd mis Ebrill yn neilltuo amser i faterion sy’n ymwneud â phobl a diwylliant.

**8. Sesiwn rhanddeiliaid - rhan 2.**

Ymunodd y Cynghorydd Rob Wilson a Tim Pritchard (y ddau o Gyngor Swydd Amwythig) â’r cyfarfod i amlinellu’r rhaglen ar gyfer canol y dref ‘Shrewsbury Moves’. Cafwyd trafodaeth ar yr uchelgeisiau i greu gorsaf barcffordd i wella mynediad i’r dwyrain ac i fynd i’r afael â’r angen ehangach am well tocynnau trawsffiniol a threfniadau teithio rhatach. Archwiliodd y Bwrdd y potensial am Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ffurfioli’r cydweithredu ar docynnau ac integreiddio bysiau. Yna, canolbwyntiodd y Bwrdd ar brydles gorsaf estynedig, gan ei nodi fel maes lle gellid sicrhau cynnydd yn gymharol gyflym [**Gweithredu: James Price**].

*Gadawodd Rob Wilson, Tim Pritchard a Peter McDonald y cyfarfod.*

**9. Rheoli Seilwaith - Model Gweithredu’r Dyfodol**

*Ymunodd Dan Tipper â’r cyfarfod.*

Trafododd y Bwrdd bapur yn manylu ar raglen newid Model Gweithredu’r Dyfodol sy’n ceisio rhoi’r gallu i TrC sicrhau’r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad drwy reoli asedau seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd yn uniongyrchol. Atgoffwyd y Bwrdd y bydd y rhaglen yn trosglwyddo cyfrifoldebau rheoli seilwaith o Amey Infrastructure Wales i TrC, gan roi rheolaeth uniongyrchol i TrC dros asedau Llinellau Craidd y Cymoedd, gyda’r nod o weithredu’n fwy integredig ac effeithlon mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar y cwsmer.

Trafododd y Bwrdd gymhlethdod gweithredol, hawliau mynediad a goblygiadau llywodraethu. Gofynnodd yr aelodau am amserlenni clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a phwysleisiwyd yr angen am gael rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio ar gyfer gweithredu ar y diwrnod cyntaf. Atgyfnerthwyd pwysigrwydd parodrwydd busnes. Roedd trafodaethau pellach yn cynnwys gweithredu systemau'n ddiogel, atebolrwydd rhwng timau Gweithrediadau Rheilffyrdd a Rheoli Seilwaith, etifeddu rhaglenni cynnal a chadw a'r angen i nodi rolau gweithredol hanfodol.

Cymeradwyodd y Bwrdd y cyfeiriad a'r dull gweithredu fesul cam sy'n cael ei ddilyn, gan edrych ymlaen at gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**10. Sesiwn gyfrinachol**

Ystyriwyd adroddiad ar effeithiolrwydd y Bwrdd, ac archwiliad o sgiliau cyfarwyddwyr anweithredol gan gynnwys rôl is-bwyllgorau. Nododd yr aelodau'r angen i gadarnhau pwrpas y pwyllgorau hyn i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar sicrwydd ac yn osgoi dyblygu neu fylchau yn y ddarpariaeth [**Gweithredu: Jeremy Morgan**].

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.